**DISGRIFIAD SWYDD**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Cynorthwyydd Ymchwil - Effaith** |
| **Adran** | **GYA** |
| **Lleoliad:** | **Llandaf a Chyncoed** |
| **Gradd:** | **5** |
| **Cyflog:** | **£ 35,116 - £38,249 cyfwerth ag amser llawn (cyfradd fesul awr o £18.20)** |
| **Cyfnod:** | **Achlysurol a thymor penodol 6-12 mis (adnewyddadwy)** |
| **Oriau** | **Amrywiol** |

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddangosol, nid yn rhagnodol, a bydd cydbwysedd y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.*

**Crynodeb Rôl:**

Prif bwrpas y rôl hon yw cyfrannu at ddangos tystiolaeth o weithgareddau effaith a chyflawni canlyniadau effaith sy'n cyfrannu at ddyheadau Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer REF2029.

Bydd deiliad y swydd yn adrodd i Reolwr Datblygu Effaith y Brifysgol ac yn cydweithio'n agos â Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (GYA), Ysgolion, PDR a rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

- Cyfrannu at gasglu ac archwilio data effaith.
- Cysylltu ag unigolion allweddol sydd wedi'u lleoli yn yr Ysgolion/Unedau a'r GYA i gefnogi casglu tystiolaeth o weithgarwch effaith yn effeithiol.
- Defnyddio gwybodaeth fanwl am dechnegau ymchwil a chasglu data i gefnogi canlyniadau gweithgaredd effaith llwyddiannus.

- Cynnal chwiliadau sy'n seiliedig ar lenyddiaeth a data, a lle bo'n briodol, ymgymryd ag ysgrifennu adroddiadau i gefnogi cynhyrchu allbynnau ymchwil a chanlyniadau gweithgareddau effaith.
- Hyrwyddo rhannu gwybodaeth drwy gyflwyno canfyddiadau.
- Cefnogi cyflawniad manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pendant i'r gymuned ehangach a fydd yn cyfrannu at ganlyniadau effaith.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill y gellir eu neilltuo'n rhesymol gan reolwr Datblygu Effaith y Brifysgol.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**

***Hysbysiad Safonol***

**Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich contract. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd. Nid yw'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau i fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y bydd tasgau technegol cysylltiedig eraill yn cael eu cyflawni yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell.**

**Derbynnir y bydd gan staff unigol sylfaen sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y maent wedi'u penodi iddi. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn disgwyl y bydd yr holl staff yn ymddwyn mewn modd proffesiynol a chwrtais bob amser ac yn rhoi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

## MANYLEB PERSON

Post: Cynorthwyydd Ymchwil

Uned/Ysgol: GYA

*Allwedd

Ff - Ffurflen Gais
C - Cyfweliad
P - Prawf

| FFACTORAU | MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL | ASESIR GAN | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Ff* | C* | P* |
| **Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)** | Gradd israddedig neu brofiad perthnasol. | ✔ | | |
| | Myfyriwr Doethuriaeth cofrestredig neu wedi cwblhau'n ddiweddar. | ✔ | | |
| **Addysg a Chymwysterau (Dymunol)** | Cymwysterau proffesiynol, ôl-raddedig perthnasol neu brofiad cyfatebol mewn maes priodol. | ✔ | | |
| **Gwybodaeth (Hanfodol)** | Profiad o weithio mewn amgylchedd academaidd ar brosiectau ymchwil cymhwysol. | ✔ | ✔ | |
| | Profiad o weithio mewn amrywiaeth o leoliadau i gasglu amrywiaeth o fathau o ddata. | ✔ | ✔ | |
| | Gwybodaeth am ystod o ddulliau ymchwil a thechnegau casglu data | ✔ | ✔ | |
| **Gwybodaeth (Dymunol)** | Gwybodaeth am gymhwyso ymchwil a'i heffaith | ✔ | ✔ | |
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Hanfodol)** | Sgiliau pobl rhagorol | ✔ | ✔ | |
| | Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm a chyda amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol. | ✔ | ✔ | |
| | Y gallu i ddangos a defnyddio menter | ✔ | ✔ | |
| | Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu ysgrifenedig effeithiol | ✔ | ✔ | |
| | Sgiliau rheoli amser a gweinyddu effeithiol | ✔ | | |
| | Y gallu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt a gweithio i derfynau amser | ✔ | ✔ | |
| | Y gallu i gasglu a storio data | ✔ | | |
| | Sylw i fanylion | ✔ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r Rôl (Dymunol)** | Y gallu i gyfrannu at ysgrifennu adroddiadau a phapurau i'w cyhoeddi<br><br>Trwydded yrru lawn | ✔<br><br>✔ | ✔ | |
| **Profiad â Thâl / Heb Dâl (Hanfodol)** | Tystiolaeth o gasglu data a gwybodaeth o fewn amgylchedd academaidd. | ✔ | ✔ | |
| **Profiad â Thâl / Heb Dâl (Dymunol)** | Gwybodaeth a phrofiad blaenorol o ddangos tystiolaeth o newid/effaith ymchwil. | ✔ | ✔ | |
| **Gofynion Eraill**<br><br>**(Hanfodol/Dymunol)** | | | | |
| **Sgiliau Cymraeg**<br><br>Gwrando<br><br>Dymunol | Gwrando<br><br>A1 - Dechreuwr<br><br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | ✔ | | |
| Sgiliau Cymraeg<br><br>Darllen<br><br>Dymunol | Darllen<br><br>A1 - Dechreuwr<br><br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | ✔ | | |
| Sgiliau Cymraeg<br><br>Siarad<br><br>Dymunol | Siarad<br><br>A1 - Dechreuwr<br><br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | ✔ | | |
| Sgiliau Cymraeg<br><br>Ysgrifennu<br><br>Dymunol | Ysgrifennu<br><br>A1 – Dechreuwr<br><br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | ✔ | | |

*Sylwch nad yw cofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i gael cyflogaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Am ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, CRB gynt) ewch i https://www.gov.uk/crb-criminal-records-bureau-check